**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-8-02(p.1)**

**Dyddiad:** 25 Ebrill 2002

**Amser:** 2.00pm-4.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ADDYSG: MEITHRIN AC OEDOLION

## Papur gan yr Ymgynghorydd Arbenigol

Bu'r meysydd hyn yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Diwylliant am eu bod yn cyfrif fel addysg 'anstatudol'. Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu GydolOes, fydd yn gwneud argymhellion penodol i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol, hefyd yn eu hystyried. Yn eu cyfarfodydd ar ddydd Mercher Ebrill 24ain a dydd Iau Mai 2 bydd Estyn, UCAC a Mudiad Ysgolion Meithrin, sy'n gyfrifol yn benodol am y blynyddoedd cynnar, yn cyflwyno eu tystiolaeth. Serch hyn, mae angen i'r pwyllgor hwn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn uniongyrchol iddo, yng ngyd-destun y strategaeth gyffredinol.

### MEITHRIN

Cyflwynwyd y prif dystiolaeth yn y maes hwn gan y prif gyflenwr yn y maes, Mudiad Ysgolion Meithrin. Ers ei sefydlu yn 1971 tyfodd y mudiad yn gymdeithas o gylchoedd at yn agos i 1000 ledled Cymru gyda'r twf mwyaf yn yradaloedd y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain. Mae ei weithgarwch yn cael ei ddisgrifio yn y teitl llawn – Cymdeithas Wirfoddol Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Rhiant a Phlentyn a Meithrinfeydd. Esgorodd eu llwyddiant ar broblemau twf a gafodd eu dwysau gan ganfyddiad o ddiffyg cyllunio hir-dymor a'r mudiad yn gorfod ymateb yn gyflym i anghenion a dibynnu ar weithwyr gwirfoddol. Gwelent angen clir am fuddsoddiad mewn hyfforddi staff arbenigol yn yr ystod oedran hwn. Mynegodd MYM gynsyrn fod datblygiad addysg feithrin yn y sector gyhoeddus, fydd yn cynyddu'r niferoedd o blant dros dair oed sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn eu gadael yn y cysgodion. Cafodd y ffactor hon effaith andwyol ar nifer y grwpiau dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedden nhw hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth anghenion arbennig ar gyfer plant o gartrefi Cymraeg yn yr oedran hwn.

Dadansoddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y sefyllfa yng nghyd-destun targedau ei ddatganiad o Weledigaeth a Chenhadaeth. Dim ond 6.3% o blant Cymru sy'n siarad Cymraeg yn dair oed. Daw'r rhain bron i gyd o gartrefi Cymraeg. Mae'n dod i'r casgliad fod creu siaradwyr Cymraeg

yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol. Yn yr oedran hwn, mae plant yn fwy agored i ieithoedd newydd. Ccaffael iaith yn naturiol a rhwydd yn hytrach na'i dysgu mae nhw.

Dywedodd y Bwrdd wrthym am eu strategaeth ar y cyd gyda MYM. Roedd wedi pennu targedau pendant ar gyfer marchnata, system i fonitro targedau ieithyddol a chynydd yn y cyflenwad a chyfradd derbyn i addysg feithrin Gymraeg a dwyieithog.

Bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ystyried manylion gosod targedau realistig ac adnoddau ar gyfer datblygu. Gwahoddir y pwyllgor Diwylliant i ystyried tri phwnc strategol sy'n codi o'r dystiolaeth.

1. Pa mor uchel yw'r flaenoriaeth ar gyfer addysg feithrin Gymraeg a dwyieithog?
    - o ran adnoddau?
    - o ran hyfforddi staff ac athrawon ac
    - a ddylid blaenoriaethu y cyfnod hwn dros yr oedran hyn?
2. Gyda mwy o addysg gyhoeddus yn yr oedran dros dair oed, beth yw swyddogaeth y Mudiad Ysgolion Meithrin ar gyfer yr oedran iau? A ddylid fod mwy o addysg Gymraeg yn y sectorau preifat a gwirfoddol?
3. Beth yw'r canlyniadau dymunol ar gyfer y strategaeth eang? Ai cynyddu'r niferoedd neu sicrhau mwy o ruglder i nifer llai o blant?

**Cymraeg i Oedolion**

Cyflwynwyd sawl tystiolaeth yn maes hwn. Cyflwynodd ELWa a Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu gweledigaeth strategol. Cyflwynodd Popeth yn Gymraeg, Nant Gwrtheyrn, CYD, Powys County Council, Gwynedd County Council, Iaith Cyf, Acen ac eraill enghreifftiau ymarferol o lwyddiannau a rhwystredigaethau ynogystal â'u gweledeigaeth am ddatblygiad. Cyflwynodd y Consortia Cymraeg i Oedolion eu tystiolaeth ysgrifenedig drwy'r Bwrdd. Roedd enghraifft Gwlad y Basg wedi dylanwadu'n drwm ar yr holl gyflenwyr a'r adnoddau a roddir gan lywodraeth gwlad y Basg (£30miliwn o'i gymharu â £3.1 miliwn gan ELWa yng Nghymru) yn cael ei ddyfynnu'n aml. Yn gyffredinol, roedd cytundeb ar y ffordd ymlaen:

- Strwythur cenedlaethol ar gyfer cyflenwi'r anghenion a chyd-lynu'r ddarpariaeth leol a datblygu adnoddau yn ganolog.
- Dylai'r maes gael ei broffesiynoli gyda strwythur hyfforddiant a gyrfa i diwtoriaid.
- Dylai fod systemau monitro cadarn i sicrhau darpariaeth effeithiol fyddai'n cyrraedd y targedau strategol a osodir ar gyfer cynyddu'r nifer o bobol sy'n deall a siarad y Gymraeg.
- Dylai datblygiad Cymraeg yn y Gweithle gael ei seilio ar anghenion y dysgwr, fel ei fod yn cael ei weld fel sgil i'w gaffael at bwrpas yn hytrach na chwrs cyffredinol. Dylid rhoi anogaeth i gyflogwyr i ryddhau'r staff ar gyfer hyn.

Nodwyd fod swyddogaeth ELWa a'i flaenoriaethau yn greiddiol i'r datblygiadau. Roedd darparwyr yn feirniadol o'r lefel bresennol o ariannu ac o'r fformiwla a ddefnyddiwyd ers blynyddoedd, oedd yn llai ffafriol na'r un ar gyfer dysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) Mae ELWa ar hyn o bryd yn adolygu'r cyllid ar gyfer yr holl faes. Teimlent hefyd fod ELWa wedi rhoi'r argraff nad oedd y darparwyr yn effeithiol ar hyn o bryd. Roedden nhw am gywiro'r argraff hon drwy nodi nad oedd ystadegau ELWa wedi rhoi ystyriaeth i ffactorau'r argyfwng petrol a chlwy'r traed a'r genau yn y nifer a gofrestrwyd yn 2000/01. Roedd yna hefyd anghytundeb ar y cyfradd cadw myfyrwyr ar gyrsiau Cymraeg. Dangosodd y ffigyrau a gyflwynwyd yn ddiweddarach gan y consortia fod cyfradd cadw Cymraeg i Oedolion - 82.4% - yn uwch na rheini ar gyfer ESOL (79.4%) a Ffrangeg a Sbaeneg (77.1% and 69.6% ). Roedd ystadegau eraill o gymwysterau a dderbyniwyd yn dangos fod oddeutu 10% o'r rheini sy'n cofrestru yn dod yn rhugl bob blwyddyn (tua 2000 o dysgwyr).

Gofynnir i'r Pwyllgor hwn ystyried y datganiadau canlynol mewn perthynas â chyfeiriad Cymraeg i Oedolion i'r dyfodol:

1. Y nod yw cynyddu'n barhaus y nifer o oedolion sy'n cyrraedd rhuglder yn y Gymraeg.
2. Dylai ELWa;
    - ddatblygu ei strategaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion gan gymryd i ystyriaeth ei bwysigrwydd yn y nod gyffredinol o greu Cymru ddwyieithog.
    - bennu cyllid sy'n gymesur â'r nod a sicrhau mynediad a chyfle i oedolion i ddysgu Cymraeg ledled Cymru.
    - Sefydlu system fonitro gadarn i fesur effeithlonrwydd y cyflenwad i gwrdd â'r targedau.
    - Gosod fframwaith ar gyfer proffesiynoli'r maes ar gyfer hyfforddi tiwtoriaid cymwys ledled Cymru.
    - Sefydlu canolfan adnoddau ( o bosibl yn rhithiol) i sicrhau fod y system yn gallu cwrdd â'r cynydd tebygol yn nifer y dysgwyr.
3. Dylid sicrhau a hyrwyddo Cynlluniau Cymraeg yn y Gweithle, wedi eu selio ar anghenion y dysgwyr yn ei swydd. Dylid annog cyflogwyr (sector gyhoeddus a phreifat) i ryddhau gweithwyr i ddysgu Cymraeg.
4. Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fydd yn ystyried y manylion ac yn dal i fonitro'r strategaeth yn y dyfodol.

## ATODIAD

## TYSTIOLAETH GAN ESTYN

### Y blynyddoedd cynnar

### Tystiolaeth

Mae bron bob plentyn ifanc o dair i bum mlwydd oed yn derbyn rhyw fath o addysg blynyddoedd cynnar naill ai yn y sector a gynhelir neu'r sector nas cynhelir a hynny naill ai am ddiwrnod cyfan neu ran o ddiwrnod.

Dengys ein tystiolaeth arolygu fod plant ifanc yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mewn ysgolion Cymraeg penodol neu ysgolion dwyieithog, yn aml, caiff disgyblion 3-5 oed sylfaen dda ar gyfer datblygu eu rhwyddineb yn y Gymraeg. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan ddônt o aelwydydd lle mai Saesneg yw unig iaith yr aelwyd. Mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng, caiff llawer o blant ifanc rywfaint o brofiad cynnar o'r Gymraeg hefyd sy'n eu cyflwyno i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd o ddydd i ddydd.

Mae plant ifanc hefyd yn cael rhywfaint o gefnogaeth wrth ddysgu'r Gymraeg mewn lleoliadau gwirfoddol, preifat ac annibynnol eraill yn y sector nas cynhelir. Mae rhyw 20% o blant ifanc yn mynychu grwpiau chwarae Cymraeg yn y sector nas cynhelir. Fodd bynnag, nid oes union ffigwr ar gael ar gyfer cyfanswm y plant ifanc sy'n cael profiad cynnar o ddysgu'r Gymraeg yn y sector Saesneg nas cynhelir.

Yn y sector Cymraeg nas cynhelir, mae Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn effeithiol wrth helpu plant ifanc i sefydlu sylfeini da yn y Gymraeg. Darpara addysg a chefnogaeth drwytho yn y Gymraeg i blant o aelwydydd Cymraeg a rhai aelwydydd di-Gymraeg. Mae MYM hefyd yn

gweithio'n effeithiol â phlant ifanc sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a ddaw yn bennaf o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn canolfannau trefol megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi profi ei allu i ddarparu sylfaen dda yn y Gymraeg i blant ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae hyn wedi esgor ar ddewis i rieni anfon eu plant i ysgolion Saesneg neu Gymraeg eu cyfrwng ar ôl y profiad hwn.

Pan fydd plant o oedran cyn ysgol yn dysgu'r Gymraeg mae'n rhoi cyfle gwerthfawr iddynt ddechrau sylweddoli natur unigryw Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliant. Mae hefyd yn sefydlu camau paratoi gwerthfawr i blentyn ddysgu'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1. Yn aml mae plant ifanc yn elwa'n fawr o ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae, chwarae rôl ac mewn gweithgareddau strwythuredig ar draws y sector.

Mae 'Canlyniadau Dymunol' ACCAC a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan rai AALl ar y chwe maes dysgu wedi helpu athrawon i feithrin medrau iaith disgyblion a gall hyn gynnwys eu medrau dwyieithog. Mae Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar mewn AALl wedi gwella'r gwaith cynllunio ar gyfer addysg Gymraeg i blant ifanc.

**Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o wybodaeth ddibynadwy ar y graddau y mae plant ifanc yn dysgu'r Gymraeg yn y sector nas cynhelir.

- Yn gyffredinol nid oes arweiniad digon manwl ar gael i arweinwyr grwpiau chwarae a meithrinfeydd ar lunio cwricwlwm mewn lleoliad dwyieithog neu wrth ddatblygu medrusrwydd plant mewn ail neu drydedd iaith.

**Cymraeg i oedolion**

**Tystiolaeth**

Y Cyngor Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ariannu'r ddarpariaeth Cymraeg i oedolion. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod eang o ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn wyth consortiwm. Mae'r consortia yn cynnwys pob darparwr Cymraeg i oedolion o fewn dalgylch penodol. Sefydlwyd y consortia ym 1994 i gydlynu a datblygu'r ddarpariaeth mewn dull strategol.

Mae’r galw am ddarpariaeth Gymraeg i oedolion wedi cynyddu’n sylweddol, o 13,300 myfyriwr yn cofrestru ar gyrsiau ym 1994 i 21,011 yn 2001. Mae’r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweithio tuag at lefelau 1 a 2.

Mae ein tystiolaeth (2000-2001) yn nodi bod pob darparwr Cymraeg i oedolion yn darparu cyrsiau o safon sydd o leiaf yn foddhaol. Mae safonau gwaith yn dda ar bob lefel yn y rhan fwyaf o achosion.

**Beth sy’n gweithio’n dda?**

Mae cyrsiau dwys, megis ‘wlpan’ a chyrsiau preswyl byr, wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth helpu oedolion i ddysgu’r Gymraeg.

**Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Mae llawer yn fodlon i gadw eu dysgu ar yr un lefel am gyfnod rhy hir. Mae llawer yn bobl sy’n dysgu’r Gymraeg yn eu hamser hamdden ac nid ydynt yn teimlo’r angen i symud ymlaen i lefelau uwch.

- Mae gormod o ddysgwyr yn tynnu yn ôl o ddosbarthiadau dechreuwyr, am nad ydynt yn gwerthfawrogi pa mor anodd yw dysgu hyd nes y byddant yn dechrau.

- Mewn rhai ardaloedd mae gormod o ddarparwyr yn cystadlu am yr un cleientiaid.

- Mewn llawer o ardaloedd mae’n anodd i ddarparwyr recriwtio tiwtoriaid addas i ateb anghenion lleol. Yn aml mae angen rhagor o hyfforddiant ac arweiniad ar diwtoriaid a byddai’n fuddiol cael llwybr cenedlaethol strwythuredig ar gyfer addysgu/tiwtora ar bob lefel.

- Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn y gweithle yn anwastad ar draws consortia. Mae rhai darparwyr sy’n cynnig ychydig iawn neu ddim byd o gwbl, tra bod eraill yn ymateb yn well i anghenion.